Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

TREFNIADAU DERBYNIADAU YSGOLION I RIENI 2025-2026

Diben y llyfryn hwn yw rhannu gwybodaeth gyffredinol gyda rhieni / gofalwyr am ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig Merthyr Tudful. At hyn, yn fwy penodol mae manylion am drefniadau derbyn ac apeliadau sy'n llywodraethu'r ysgolion hynny. Mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi yn unol â'r Ddeddf Addysg 1996 a'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i'r flwyddyn ysgol 2025/2026 ac, er ei bod yn gywir ym mis Medi 2024, nid yw'n eithrio newidiadau i'r trefniadau perthnasol cyn cychwyn, neu yn ystod y flwyddyn ysgol 2025/2026 neu'r blynyddoedd yn dilyn hynny.

Hoffwn sicrhau bod y llyfryn hwn yn llawn gwybodaeth ac yn gymorth i rieni / gofalwyr sy'n meddu ar yr hawl i fynegi blaenoriaeth o ran yr ysgol yr hoffan nhw anfon eu plentyn iddi.

Manylion Cyswllt:
Ffôn: (01685) 725000

email: school.admissions@merthyr.gov.uk
website: www.merthyr.gov.uk

CYNNWYS

Rhagair ..... Tudalen 1

Dyddiadau'r tymhorau ..... Tudalen 2

Amserlen y broses derbyniadau 2025-2026 ..... Tudalen 3

ADRAN A – Polisi Derbyniadau
Dewis Ysgol ..... Tudalen 4
Cyfyngiadau / Meini Prawf o ran Derbyniadau ..... Tudalen 6
Trefniant Ysgolion ..... Tudalen 7
Rhestr Aros ..... Tudalen 9
Polisi'r Iaith Gymraeg ..... Tudalen 10
Derbyniadau i Ysgolion Cymraeg ..... Tudalen 11
Trefniadau Derbyniadau ar gyfer disgyblion gydag
Anghenion Dysgu Ychwanegol ..... Tudalen 11
Trefniadau gydag Awdurdodau Lleol Cyfagos ..... Tudalen 12
Ceisio am Le mewn Ysgol ..... Tudalen 12
Amseriad y Broses Dderbyn ..... Tudalen 12
Beth sy'n digwydd pan fo gormod o blant yn ceisio am le mewn ysgol ..... Tudalen 13
Dalgylchoedd ..... Tudalen 14
Gwirio Gwybodaeth ..... Tudalen 14
Beth sy'n digwydd os gwrthodir lle i blentyn? ..... Tudalen 15
Derbyniadau yng nghanol Tymor ..... Tudalen 16
Derbyniadau i Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol ..... Tudalen 17
Derbyniadau'r Chweched Dosbarth (Coleg Merthyr Tudful) ..... Tudalen 20
Bwyd a Diod mewn Ysgolion ..... Tudalen 20
Prydau Ysgol am Ddim a Gwisg Ysgol ..... Tudalen 22
Plant Teuluoedd Personél y Lluoedd Arfog y DU ..... Tudalen 23

ADRAN B
Polisi Trafnidiaeth Ysgolion ..... Tudalen 24

ADRAN C
Rhestr Ysgolion ..... Tudalen 25

ADRAN D
Ysgolion Cynradd / Uwchradd Cysylltiedig ..... Tudalen 28

RHAGAIR

Annwyl Rieni/Gofalwyr

Mae dewis yr ysgol orau i'ch plentyn ymysg y penderfyniadau pwysicaf bydd angen ichi eu gwneud. Yn y llyfryn hwn mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am yr ysgolion ledled Merthyr Tudful a sut i geisio am le.

Cyn ichi benderfynu pa ysgol sydd fwyaf priodol i'ch plentyn chi, cofiwch ystyried os hoffech eich plentyn dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu os hoffech chi iddyn nhw fynychu ysgol Ffydd. Mae mwy o wybodaeth am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein llyfryn Bod yn Ddwyieithog yma. Llyfryn Bod yn Ddwyieithog.Gellir dod o hyd i hwn hefyd ar wefan y Cyngor – www.merthyr.gov.uk

Edrychwch ar wefannau ysgolion a gofynnwch am gopïau o brosbectysau hefyd i'ch cynorthwyo gyda'ch penderfyniad.

Hoffwn ddymuno pob llwyddiant i'ch plentyn ym mha bynnag ysgol fyddwch chi'n ei dewis ac rwy'n gobeithio hefyd y byddwch yn achub ar y cyfle i gefnogi ysgol eich plentyn / plant drwy ymwneud gyda gwahanol agweddau yn yr ysgol yn ystod eu hamser yno. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda chi dros y blynyddoedd nesaf

Dymuniadau gorau



SUE WALKER
Prif Swyddog (Dysgu)/
Prif Swyddog Addysg

Y Cynghorydd Geraint Thomas
Arweinydd CBSMT

TYMOR YR YSGOL A DYDDIADAU GWYLIAU Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2024-2025

Sylwch fod yr amserlenni hyn yn destun unrhyw newidiadau sy'n codi yn sgil penderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golledion yn gysylltiedig â threfniadau gwyliau sydd wedi'u haddasu yn sgil newidiadau o'r fath.

TYMOR	TYMOR YN CYCHWYN	HANNER TYMOR YN CYCHWYN	HANNER TYMOR YN GORFFEN	TYMOR YN GORFFEN	NIFER Y DYDDIAU YSGOL
HYDREF 2024	Dydd Llun, Medi'r 2il	Dydd Llun Hydref 28ain	Dydd Gwener Tachwedd 1af	Dydd Gwener Rhagfyr 20fed	75
GWANWYN 2025	Dydd Llun, Ionawr yr 6ed	Dydd Llun Chwefror 24ain	Dydd Gwener Chwefror 28ain	Dydd Gwener Ebrill 11eg	65
HAF2025	Dydd Llun Ebrill yr 28ain	Dydd Llun Mai 26ain	Dydd Gwener Mai 30ain	Dydd Llun Gorffennaf 21ain	55
CYFANSWM					195

Bydd yr holl ysgolion ar gau ar **ddydd Llun, Mai'r 5ed 2025** ar gyfer Gŵyl y Banc Calan Mai.

Dyddiadau pwysig:	Nadolig	Dydd Mawrth, Rhagfyr y 25ain 2024
	Pasg	Dydd Gwener y Groglith, Ebrill y 18fed 2025
		Dydd Llun y Pasg Ebrill y 21ain 2025
	Gwyliau Banc mis Mai	Dydd Llun Mai 5ed 2025
		Dydd Llun Mai 26ain 2025

Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2025-2026

TYMOR	TYMOR YN CYCHWYN	HANNER TYMOR YN CYCHWYN	HANNER TYMOR YN GORFFEN	TYMOR YN GORFFEN	NIFER Y DYDDIAU YSGOL
HYDREF 2025	Dydd Llun, Medi'r 1af	Dydd Llun Hydref 27ain	Dydd Gwener Hydref 31ain	Dydd Gwener Rhagfyr 19eg	75
GWANWYN 2026	Dydd Llun, Ionawr yr 5ed	Dydd Llun Chwefror 16eg	Dydd Gwener Chwefror 20fed	Dydd Gwener Ebrill 11eg	55
HAF2026	Dydd Llun Ebrill yr 13eg	Dydd Llun Mai 25ain	Dydd Gwener Mai 29ain	Dydd Llun Gorffennaf 20fed	65
CYFANSWM					195

Bydd yr holl ysgolion ar gau ar **ddydd Llun, Mai'r 4ydd 2026** ar gyfer Gŵyl y Banc Calan Mai.

Dyddiadau pwysig:	Nadolig	Dydd Llun, Rhagfyr y 25ain 2025
	Pasg	Dydd Gwener y Groglith, Ebrill 3ydd 2026 a
		Dydd Llun y Pasg Ebrill 6ed 2026
	Gwyliau Banc mis Mai	Dydd Llun Mai 4ydd 2026
		Dydd Llun Mai 25ain 2026

Pryd ddylech chi geisio am le i'ch plenty mewn Ysgol?

Amserlenni Derbyniadau ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2025-2026

Carfan Derbyniadau	Oedran y Disgybl	Agor Ar-lein	Cau Ar-lein	Dyddiad cyflwyno'r llythyrau penderfyniadau
Ysgol Uwchradd Blwyddyn 7	Pen-blwydd yn 12 oed rhwng Medi'r 1af 2025 ac Awst yr 31ain 2026	Medi'r 4ydd 2024	Rhagfyr yr 20fed 2024	Mawrth y 1af 2025
Dosbarth Derbyn Ysgol Gynradd (h.y. 4 oed cyn Medi'r 1af 2025)	Pen-blwydd yn 5 oed rhwng Medi'r 1af 2025 ac Awst yr 31ain 2026	Medi'r 4ydd 2024	Rhagfyr yr 20fed 2024	Ebrill y 15fed 2025

Amserlen Apeliadau ar gyfer Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 yn unig		
Carfan Derbyniadau	**Dyddiad Cau ar gyfer Derbyn Apeliadau**	**Dyddiad Cyflwyno'r Apeliadau**
Ysgol Gynradd – Dosbarth Derbyn	Mai'r 2il 2025	Ymhen 30 diwrnod ysgol o dderbyn yr apêl yn ysgrifenedig
Ysgol Uwchradd – Blwyddyn 7	Mawrth y 15fed 2025	Ymhen 30 diwrnod ysgol o dderbyn yr apêl yn ysgrifenedig

Os bydd cais am apêl yn aflwyddiannus, byddwch yn cael cynnig gwrandawiad gan banel apêl annibynnol.

Apeliadau 2023-24

Yn ystod y Flwyddyn Academaidd 2022-23, ni dderbyniodd yr Awdurdod Lleol unrhyw apeliadau gan rieni / gofalwyr

Amserlen Cyn Feithrin/ Meithrin ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2025-2026

CARFAN DERBYNIADAU	OEDRAN Y DISGYBL	CEISIADAU I'W DYCHWELYD ERBYN	DYDDIADAU CAIFF YR HYSBYSIADAU PENDERFYNIADAU EU CYFLWYNO	DYDDIAD CYCHWYN
Dosbarth Meithrin Ysgol Gynradd – Medi 2025 (h.y. 3 oed cyn Medi'r 1af 2025)	Pen-blwydd yn 4 oed rhwng: Medi'r 1af 2025 ac Awst y 31ain 2026	Tachwedd 30ain 2024	Rhagfyr 13eg 2024	Medi 2025
Cyn-Feithrin Ionawr 2026	Pen-blwydd yn 3 oed rhwng: Medi'r 1af a Rhagfyr yr 31ain 2025	Chwefror 28ain 2025	Mawrth 28ain 2025	Ionawr 2026
Cyn-Feithrin Ebrill 2026	Pen-blwydd yn 3 oed rhwng: Ionawr y 1af a Mawrth yr 31ain 2026	Mai 31ain 2025	Gorffennaf 4ydd 2025	Ebrill 2026

MAE'N RHAID ICHI DDYCHWELYD YR HOLL FFURFLENNI CAIS AT DÎM DERBYNIADAU'R YSGOL AR
School.Admissions@merthyr.gov.uk

A. DERBYNIADAU I YSGOLION YM MERTHYR TUDFUL

DEWIS YSGOL

Caiff mynediadau plant i ysgolion ei reoli a'i weinyddu gan 'Awdurdod Derbyniadau'. Yn achos ysgolion cymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r Awdurdod Derbyniadau, a chaiff ei alw hefyd yn Awdurdod Lleol (LA).

Y nachos ysgolion eglwys a gynorthwyir yn wirfoddol (ffydd), yr awdurdod derbyniadau yw'r corff llywodraethu ar ran yr ysgol unigol.

Ym mhob Bwrdeistref Sirol, mae gan bob ysgol eu dalgylch penodedig eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o rieni / gofalwyr yn anfon eu plant i'r 'ysgol leol', ond mae hawl gan rai rhieni/gofalwyr fynegi ei fod yn well ganddyn nhw ysgol wahanol. Bydd gofyn i holl rieni/gofalwyr disgyblion sydd i fod i symud ysgolion ym mis Medi 2025 nodi eu hysgol ddewisol ar y ffurflen gais swyddogol ar gyfer derbyniadau. Nid oes hawl awtomatig gan unrhyw un i fynychu ysgol benodol ond byddwn yn dwyn i ystyriaeth yr holl geisiadau swyddogol gaiff eu cyflwyno cyn y dyddiad cau.

Bydd croeso i holl rieni / gofalwyr gyflwyno ceisiadau derbyniadau ar-lein

Apply for a school place | Merthyr Tydfil County Borough Council **o'r wythnos sy'n cychwyn ar Fedi'r 4ydd 2024. Gallwch holi am gopïau o'r ffurflenni ar bapur a bydd angen eu dychwelyd at Tîm Derbyniadau Ysgolion, Yr Adran Addysg, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN er mwyn paru dewisiadau rhieni / gofalwyr gyda'r lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol o'u dewis nhw. Dyma'r amserlen derbyniadau fel a ganlyn:**

Carfan Derbyniadau	**Dyddiad Cau**
Ysgol Uwchradd - Blwyddyn 7	Rhagfyr 20fed 2024
Ysgol Gynradd – Dosbarth Derbyn (4 oed cyn Medi'r 1af 2025)	Rhagfyr 20fed 2024
Ysgol Gynradd – Dosbarth Meithrin (3 oed cyn Medi'r 1af 2025)	Tachwedd 30ain 2024
Ysgol Gynradd – Dosbarth Cyn-Feithrin **Tymor y Gwanwyn – Ionawr 2026** (Pen-blwydd yn 3 oed rhwng Medi'r 1af 2025 a Rhafyr yr 31ain 2025)	Chwefror 28ain 2025
Ysgol Gynradd – Dosbarth Cyn-Feithrin **Tymor yr Haf – Ebrill 2026** (Pen-blwydd yn 3 oed rhwng Ionawr y 1af 2026 a Mawrth yr 31ain 2026)	Mai 31ain 2025

Dylai'r rhieni / gofalwyr ymgeisio am le:

- ar gyfer derbyniadau i ddosbarth cyn-feithrin;
- ar gyfer deryniadau i ddosbarth meithrin / ysgol;
- ar gyfer derbyniad i ddosbarth derbyn;
- ar gyfer trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd; ac

- ar unrhyw adeg lle maen nhw'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o un ysgol i un arall.

Gallai rhieni/gofalwyr fynegi eu hawl ymhellach i ddewis ysgol cyfrwng Gymraeg neu ysgol eglwys a gynorthwyir yn wirfoddol.

Mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol a'r llywodraethwyr ysgol gydymffurfio gydag unrhyw ddewis caiff ei fynegi, cyhyd â bod lle yn yr ysgol. Fodd bynnag, dylid dwyn y canlynol i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad ynghylch derbyn disgyblion:

- y ddarpariaeth gyffredinol o ran addysg effeithlon a'r defnydd effeithlon o adnoddau;
- y Ddeddf Addysg 1998, sy'n caniatáu i awdurdod derbyn i wrthod cydymffurfio gyda dewis rhiant / gofalwr am gyfnod o ddwy flynedd yn dilyn ail waharddiad parhaol neu waharddiad parhaol dilynol.
- Mae'n rhaid dwyn i ystyried ceisiadau ar ran disgyblion sy'n byw y tu hwnt i'r ardal 'dalgylch' gan wybod y galw yn y dyfodol am leoedd gan blant sy'n byw yn ardal leol yr ysgol;
- canllaw cyfyngiadau meintiau dosbarthiadau sy'n cyfyngu'r nifer o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd i 30.

Ni fydd gan ddisgybl, sy'n mynychu ysgol sydd y tu hwnt i'w dalgylch penodedig ac yna'n ymgeisio am le yn eu hysgol leol, hawl awtomatig i gael eu derbyn i'r ysgol honno. Bydd y penderfyniad o ran derbyn yn ddibynnol ar nifer derbyniadau'r ysgol a'r nifer o ddisgyblion yn y grŵp blwyddyn penodol h.y. os oes lle ai pheidio.

Caiff y dalgylchoedd ar gyfer ysgolion sy'n cynnig addysg gynradd eu grwpio gyda'i gilydd fel arfer i ffurfio dalgylch cysylltiedig ar gyfer pob ysgol uwchradd a gynhelir. Mae'n rhaid i ddisgyblion sy'n byw y tu hwnt i ddalgylch ysgol uwchradd geisio am dderbyniad drwy'r trefniadau sydd wedi'u cyhoeddi. Ni chaiff disgyblion sydd wedi'u derbyn i / yn mynychu ysgolion cynradd fwydo eu derbyn yn awtomatig i'w ysgol uwchradd ddewisol.

Nod pob ysgol yn yr Awdurdod yw cynnig cyfleoedd addysg i ddisgyblion sy'n diwallu anghenion y plentyn unigol. Bydd gan rhai disgyblion anghenion addysg sy'n gofyn am ddarpariaeth addysg arbennig, ac mewn rhai achosion, bydd rhieni/gofalwyr yn derbyn cymorth ac arweiniad arbenigol ynghylch y dewis o ysgolion ar gyfer eu plentyn. Caiff pob rhiant / gofalwr eu hannog i drafod meysydd pryder posib gyda'u pennaeth lleol sydd hefyd yn gallu manteisio ar gyngor arbenigol. Mae polisi'r Awdurdod yn dwyn i ystyriaeth darpariaeth y Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn prosesu'r wybodaeth byddwch chi'n ei chyflwyni yn unol â'r Deddfwriaeth Diogelu Data, gan gynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE (GDPR). Byddwn yn cadw unrhyw ddata personol yn gyfrinachol gan sicrhau mai ond y bobl berthnasol allai edrych arno a'i ddefnyddio. Ymysg y rheiny allai dderbyn yr wybodaeth rydych chi'n ei chyflwyno mae: yr ysgol gyfredol (os oes un), yr ysgol gaiff yr ysgol ei derbyn iddi, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Inclusion, Gwasanaethau Cymdeithasol,Plant sy'n Derbyn Gofal ac unrhyw fudiad arall, gan gynnwys Adrannau eraill y Cyngor, sy'n ymchwilio'n gyfreithlon i honiadau o dwyll, troseddau eraill neu amddiffyn plant. Sylwch mae'n bosibl y byddwn yn croeswirio a gwirio eich gwybodaeth o gymharu gyda gwybodaeth y mae Adrannau eraill y Cyngor yn meddu arni. Mae'n bosibl y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth ar ffurflenni anhysbys er dibenion ystadegol hefyd.

UCHAFSWM DERBYNIADAU

Mae gan bob ysgol rif derbyniadau gaiff ei bennu yn unol â maint yr ysgol yn unol â chyfrifiad 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru' Llywodraeth Cymru. Mae'r rhif derbyniadau yn cynrychioli'r nifer uchaf o ddisgyblion y dylid eu caniatáu o ran blwyddyn mynediad arferol yr ysgol (h.y. dosbarth derbyn mewn ysgolion cynradd a Blwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd) os caiff ceisiadau digonol ar gyfer derbyniadau eu cyflwyno. Ni ddylid caniatáu mwy na'r rhif derbyniadau fel arfer. Ym mhob achos oni bai mewn amgylchiadau eithriadol, byddai'r nifer derbyniadau yn berthnasol i grwpiau blynyddoedd oni bai'r flwyddyn mynediad arferol. Caiff yr uchafswm derbyniadau eu crybwyll yn y rhestr ysgolion ar Dudalennau 24-26.

Bydd plentyn yn derbyn cynnig i ysgol ddewisol eu rhiant/gofalwr fel arfer oni bai bod nifer y ceisiadau yn uwch na nifer y derbyniadau. Pan fo mwy o geisiadau na llefydd, caiff y meini prawf pan fydd nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer derbyn (ar Dudalennau 12) ei weithredu.

Caiff maint Dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen ei gyfyngu i 30 disgybl neu lai yn ôl y gyfraith. Os cyrhaeddwyd y rhif derbyniadau perthnasol, ni fydd yr awdurdod lleol yn derbyn plentyn i grŵp blwyddyn lle byddai gwneud hynny'n gwrthdaro â'r ddeddfwriaeth o ran maint dosbarthiadau. Fodd bynnag, mae modd diystyru plant penodol ('disgyblion a eithrir') at ddibenion canfod ydy'r nifer yn uwch na'r uchafswm o 30. Dyma'r plant sydd wedi'u heithrio:-

- 'plant sy'n derbyn gofal' sydd wedi'u derbyn y tu hwnt i'r rownd derbyn arferol;
- disgyblion lle maen nhw'n dymuno derbyn addysg mewn ysgol grefyddol benodol a chaiff eu derbyn i ysgol o'r fath y tu hwnt i'r rownd derbyniadau arferol;
- disgyblion dosbarth derbyn caiff eu derbyn y tu hwnt i'r rownd derbyniadau arferol ar ôl y diwrnod cyntaf yn yr ysgol lle nad yw'r nifer derbyniadau wedi'i gyflawni ond pan fo'r ysgol wedi trefnu eu dosbarthiadau eisoes a;
- pan fo dim ond un lle ar gael a phan fo plant o enedigaethau lluosog (gefeilliaid, tripledi) â'r flaenoriaeth nesaf, er mwyn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth o ran maint dosbarthiadau babanod, bydd rhieni yn derbyn dewis lle pan fo nhw'n ymgeisio. Gallai'r rheoliadau ganiatáu eithriadau i'r cyfyngiadau o ran maint dosbarth mewn amgylchiadau o'r fath.

Mae holl ysgolion cynradd y Fwrdeistref Sirol hefyd yn cynnig addysg feithrin. Fodd bynnag, does **dim mynediad awtomatig i:**

- ddosbarth meithrin o grŵp cyn-feithrin (ar gyfer disgyblion sy'n 3 oed erbyn Medi'r 1af);
- dosbarth derbyn ar gyfer plant (sy'n 4 oed erbyn Medi'r 1af) sydd wedi mynychu dosbarth meithrin mewn ysgol

Bydd gofyn iddyn nhw gyflwyno ceisiadau a chaiff y meini prawf pan fydd nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer derbyn ei weithredu os yn briodol.

Yr oedrannau arferol ar gyfer derbyniadau ym Merthyr Tudful yw:
3-4 oed mewn dosbarth meithrin neu ysgolion meithrin,
4-5 oed mewn ysgolion cynradd,
11-12 oed mewn ysgolion uwchradd.

TREFNIANT YSGOLION

Mae pob ysgol yn yr awdurdod yn rhai cyd-addysgol

1. Addysg Feithrin

Bu'n amcan hirdymor gan yr awdurdod lleol i gynnig addysg feithrin **rhan amser** am ddim o gychwyn y tymor i bob plentyn wedi i'r plentyn ddathlu eu pen-blwydd yn dair oed. Yn ymarferol, mae plant yn cychwyn mynychu dosbarthiadau meithrin pan maen nhw'n 3 neu 4 oed, yn dibynnu ar y cyfyngiadau o ran niferoedd yn y dosbarth a'r galw'n lleol.

- Bydd yr holl leoedd cyn meithrin yn rhan amser ac am o leiaf 2.5 awr y dydd.
- Bydd pob lle meithrin yn llawn amser a bydd yn 5 awr y dydd.

Nodwch os gwelwch yn dda:

- Nid yw disgyblion oed meithrin yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol
- Ar gyfer disgyblion cyn-meithrin (lleoedd rhan amser), cyfrifoldeb Pennaeth yr ysgol yw dyrannu sesiynau bore a phrynhawn.
- Gall dyddiad dechrau plentyn yn y Feithrinfa gael ei ohirio os nad yw wedi'i hyfforddi'n llawn i fynd i'r toiled. Gellir trafod hyn gyda'r feithrinfa unwaith y bydd lle wedi'i ddyrannu i'r plentyn.

Derbyniadau Cyn-Feithrin (Codi'n Dair)

Mae plant sy'n dathlu eu pen-blwydd yn 3 oed yn ystod y flwyddyn academaidd (Codi'n Dair) yn gymwys i geisio am le cyn-feithrin i gychwyn yn ystod y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed h.y. yn ystod Tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf pob blwyddyn. Caiff llefydd cyn-feithrin eu cynnig os oes digon o le ac ni ellir gwarantu hyn mewn unrhyw ysgol. Unwaith y bydd y dosbarth meithrin yn llawn, ni chaiff disgyblion cyn-feithrin eraill eu derbyn.

Ni fydd y plant gaiff eu derbyn i ddosbarth cyn-feithrin **yn meddu ar hawl awtomatig i barhau gyda'u haddysg yn yr ysgol honno**. Byddwn yn ymdrechu hyd eithaf ein gallu i sicrhau bod modd i'r disgyblion drosglwyddo i'r dosbarth Meithrin y mis Medi canlynol, **fodd bynnag mae'n bosibl na fydd hyn yn bosib bob amser oherwydd bod gormod o ddisgyblion yn y dosbarthiadau.**

Does dim hawl apelio ar gyfer lleoedd cyn-feithrin a meithrin.

Gellir dod o hyd i ddyddiadau pwysig gwneud cais am leoedd ar dudalen 3 y llyfryn hwn

Cyn belled ag y bo modd, bydd yr awdurdod yn sicrhau bod modd i'r plentyn fynychu'r ysgol oedd yn ddewis cyntaf gan y teulu. Fodd bynnag, pan na allai ysgolion fodloni'r galw, byddan nhw'n cael cynnig lle mewn ysgol(ion) gwahanol.

Darparwyr Addysg Cofrestredig (REPs) mewn Lleoliadau Nas Cynhelir

Gallai'r awdurdod lleol gynnig cyllid grant Blynyddoedd Cynnar i blant allu manteisio ar le addysg meithrin rhan amser gydag un o'r tri Darparwr Addysg Cofrestredig (REPs) ym Merthyr Tudful fel dewis arall yn lle mynychu addysg meithrin mewn ysgol.

Mae'r tri lleoliad sydd wedi'u cofrestru fel Darparwyr Addysg Blynyddoedd Cynnar ar hyn o bryd yng Nghanolfan Integredig Plant Cwm Golau, Pentrebach:-

- Cylch Meithrin (Cyfrwng Cymraeg) Capel Carmel Twyncarmel
- Cyn-Ysgol Little Rascals

Os hoffech chi fwy o wybodaeth ar Ddarparwyr Addysg Blynyddoedd Cynnar – cysylltwch gyda'r **Tîm Blynyddoedd Cynnar** ar 01685 727387 / 727374.

Ni fyddai'r awdurdod lleol yn ariannu lleoedd mewn lleoliadau nas cynhelir mewn bwrdeistrefi sirol eraill.

Derbyniadau Meithrin (Codi'n Bedair)

Ni fydd y disgyblion gaiff eu derbyn i ddosbarth meithrin **yn meddu ar hawl awtomatig i barhau gyda'u haddysg yn yr ysgol honno**. Byddwn yn ymdrechu hyd eithaf ein gallu i neilltuo lle i'r disgyblion hyn, ond bydd yn rhaid cyflwyno cais ffurfiol i drosglwyddo i'r dosbarth derbyn (yn dilyn trosglwyddo o'r dosbarth meithrin). **Mae'n bosib na fydd trosglwyddo'n bosib bob amser oherwydd bod gormod o ddisgyblion yn y dosbarthiadau.**

Gellir dod o hyd i ddyddiadau pwysig gwneud cais am leoedd ar dudalen 3 y llyfryn hwn

Meini Prawf ar gyfer Mynediad Disgyblion i ysgol / dosbarth meithrin

I weld mwy am y meini prawf pan fo gormod o ddisgyblion mewn dosbarth i allu derbyn mwy, gwelwch *"Beth sy'n digwydd pan fo gormod o blant yn ceisio am lefydd?"*

2. Derbyniad i Ddosbarth Derbyn

Mae'n rhaid i rieni/gofalwyr plant sy'n mynychu dosbarth meithrin mewn ysgol neu ysgol feithrin fwydo geisio am le yn y brif ysgol pan fo'r plentyn yn cyrraedd yr oed ar gyfer cychwyn ysgol gynradd. **Nid oes modd i blant sy'n mynychu dosbarth meithrin drosglwyddo'n awtomatig i'r ysgol.**

Gellir dod o hyd i ddyddiadau pwysig gwneud cais am leoedd ar dudalen 3 y llyfryn hwn. Bydd Derbyniadau Ar-lein ar agor yn ystod tymor yr hydref ac mae'n bwysig nad ydych yn colli allan ar le oherwydd cais hwyr.

3. Derbyniad i Ysgolion Cynradd

Ym Merthyr Tudful, mae plant rhwng 3/4-11 oed yn cael eu cydnabod fel disgyblion sy'n derbyn addysg gynradd.

Mae presenoldeb yn yr ysgol rhwng tair oed a dyddiad pumed pen-blwydd y plentyn yn ddewisol ac mae gan rieni'r hawl i ohirio mynediad eu plentyn i'r ysgol tan y tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn bump oed.

Mae gan bob plentyn hawl i ddechrau'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol (Medi) pan fyddant yn dod yn bump oed. Bydd plant yn gallu mynychu'r ysgol pan fyddant yn dair neu bedair oed a dylai rhieni drafod y ddarpariaeth hon gyda staff y Tîm Derbyn i Ysgolion.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob plentyn dderbyn addysg llawn amser o ddechrau'r tymor ysgol ar ôl ei ben-blwydd yn bump oed.

Os bydd rhieni/gofalwyr yn dewis gohirio dyddiad dechrau eu plentyn tan y tymor ar ôl iddynt droi'n bump oed, dylai'r rhiant hysbysu'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig erbyn 20ain Rhagfyr 2024. Gellir gwneud hyn

drwy e-bostio school.admissions@merthyr.gov.uk, neu drwy anfon llythyr at Derbyn i Ysgolion, Adran Ddysgu, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN.

4. Derbyniad i Ysgolion Uwchradd

Bydd plant yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar gychwyn y flwyddyn ysgol ac wedi iddyn nhw ddathlu eu pen-blwydd yn un ar ddeg. Bydd yn rhaid cyflwyno ffurflen gais wedi'i chwblhau ar gyfer holl drosglwyddiadau o'r fath. Bydd plant sydd wedi'u geni rhwng Medi'r 1af 2013 ac Awst yr 31ain 2014, yn symud i ysgol uwchradd leol ym mis Medi 2024. Gallai Penaethiaid ysgolion cynradd hysbysu rhieni/gofalwyr am yr ysgol uwchradd y dylai eu plant ei mynychu'n arferol a chynghori'r rhieni/gofalwyr o'r trefniadau trafnidiaeth y mae'r awdurdod lleol wedi'u mabwysiadu. Os yw'r rhieni / gofalwyr yn dymuno i'w plentyn fynychu ysgol uwchradd sydd ddim yn gwasanaethu eu hardal, fe ddylen nhw gysylltu gyda'r Tîm Derbyniadau Ysgolion i dderbyn cyngor (01685 725000). Dylid cyflwyno ceisiadau am dderbyniadau o'r fath cyn gynted â phosib ac fel y nodir yn Adran H "Ceisio am Le" (Tudalen 12). Mae'r meini prawf perthnasol yn Adran I "Beth Sy'n Digwydd Pan Fo Gormod o Blant yn Ceisio am Lefydd?" (Tudalen 12).

5. Newid Ysgolion

Mae newid ysgol yn ystod addysg uwchradd yn gam difrifol i blentyn. Gallai penderfyniad o'r fath fod yn anochel e.e. yn sgil y teulu'n symud cartref. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae gofyn i'r rhieni/gofalwyr gysylltu gyda'r ysgol leol yn ogystal â'r Tîm Derbyniadau Ysgolion i fanteisio ar gymorth (01685 725000). Os hoffai'r rhieni/gofalwyr i'w plentyn symud o un ysgol i un arall, fe ddylen nhw drafod y sefyllfa gyda'r pennaeth cyfredol. Os, yn dilyn y drafodaeth honno, y mae'r rhieni/gofalwyr yn dal yn dymuno symud eu plentyn i ysgol newydd, fe ddylen nhw gysylltu gyda'r Tîm Derbyniadau Ysgolion am gyngor cyn cyflwyno'r cais.

Cyfeiriwch at Adran B (Tudalen 23) i wybod mwy am drafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol.

Os nad yw'r grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol sy'n derbyn wedi cyrraedd terfyn derbyn cyhoeddedig yr ysgol (gan gynnwys, lle bo'n briodol, nifer cydnabyddedig y lleoedd wrth gefn) ar gyfer plant y mae eu rhieni/gofalwyr eisoes wedi gwneud cais am le yn yr ysgol ar eu cyfer, yna dylai plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol.

Trosglwyddiadau Cynradd - Gall dosbarthiadau gynnwys mwy nag un grŵp oedran, ac os felly, y Pennaeth fydd â'r dasg o leoli'r plentyn yn y dosbarth mwyaf priodol. Mae'r Llywodraeth wedi cyfyngu nifer y plant sy'n gallu mynychu dosbarthiadau cynradd i uchafswm o 30 o ddisgyblion, mewn dosbarthiadau derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Gallai hyn arwain at ddim lle gwag addas ar gael.

Trosglwyddiadau Uwchradd - Dylai Rhieni/Gofalwyr nodi y gall argaeledd dewisiadau opsiwn a'r cwricwlwm a ddilynir amrywio o ysgol i ysgol, a gall hyn fod yn bryder wrth symud ysgol, yn enwedig yn ystod blynyddoedd 10/11. Ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd yr un dewisiadau opsiwn ar gael mewn ysgol arall.

RHESTRAU AROS

Ar gyfer yr ysgolion hynny a allai ddod yn orlawn, mae'r awdurdod lleol yn cadw rhestr aros. Yn dilyn dyrannu lleoedd yn ystod y cylch derbyn arferol, bydd unrhyw ddisgybl y gwrthodir mynediad iddo i ysgol â gordanysgrifio yn aros ar y rhestr hon, a fydd yn cael ei chynnal tan 30 Medi (yn unol â'r argymhelliad yn y Cod Derbyn i Ysgolion). Wedi hynny, bydd disgwyl i rieni/gofalwyr wneud cais newydd am le i'w

dewis ysgol. Penderfynir ar dderbyniadau mewn perthynas â disgyblion ar restrau aros trwy gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, nid gan hyd yr amser y mae plentyn wedi bod ar y rhestr aros.

POLISI'R IAITH GYMRAEG

Yn unol â'r Cynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg, mae'n bolisi gan yr awdurdod lleol y dylai bod cyfle i bob plentyn ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg.

Mae dau Ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful ac un darpariaeth meithrin cyfrwng Cymraeg:-

- Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful
- Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd-y-Grug
- Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful Safle'r Gurnos

Mae addysg ar gael mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i bob disgybl y mae eu rhieni yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Er mai'r Gymraeg yw'r prif gyfrwng addysg, caiff safonau uchel yn y Saesneg eu cynnal.

Bydd modd i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg barhau gyda'u haddysg mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd y tu hwnt i'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r awdurdod lleol wedi meithrin partneriaeth lwyddiannus gydag Ysgol Gyfun Rhydywaun yn Rhondda Cynon Taf.

Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

Addysgir y Gymraeg i holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau llafar o fewn cyd-destun ystyrlon. Anogir defnydd achlysurol o'r iaith yn ystod y diwrnod ysgol.

Datblygir y Gymraeg ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2 gyda mwy o bwyslais ar sgiliau darllen ac ysgrifennu. Ers Medi 1999, mae'r Gymraeg hefyd wedi'i haddysgu i bob disgybl yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.

I ddarganfod mwy am fanteision Addysg Cyfrwng Cymraeg, cyfeiriwch at y Llyfryn Dod yn Ddwyieithog, sydd ar gael ar wefan y Cyngor www.merthyr.gov.uk.

Becoming Bilingual Booklet



DERBYN I YSGOLION CYFRWNG CYMRAEG

Ydych chi wedi meddwl anfon eich plentyn i Addysg Cyfrwng Cymraeg?

Mae'r manteision i Addysg Cyfrwng Cymraeg yn enfawr ac mae hyn yn cynnwys:

Gallu siarad dwy iaith
Cael y cyfle i gael gwaith yn y Gymraeg ar ôl gorffen addysg

Mae gan addysg cyfrwng Cymraeg nod syml iawn - sef galluogi plant i ddod yn gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth ddysgu'r holl bynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Rhoddir cefnogaeth lawn gan yr ysgol i rieni ar helpu eu plant gydag addysg cyfrwng Cymraeg.
Nid oes rhaid i rieni fod yn siarad Cymraeg i anfon eu plant i ysgol cyfrwng Cymraeg.

TREFNIADAU DERBYNIADAU AR GYFER DISGYBLION GYDAG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae'n bosib y bydd angen darpariaeth arbenigol, megis Uned Adnoddau Dysgu (LRB), ar ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff derbyniad i Uned Adnoddau Dysgu ei bennu gan banel aml-asiantaeth ac fe gaiff ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod y ddarpariaeth fwyaf priodol ar gyfer y plentyn.

Pan fo plentyn wedi mynychu Uned Adnoddau Dysgu Blynyddoedd Cynnar, nid oes hawl awtomatig ganddyn nhw i fynychu Uned Adnoddau Dysgu Cyfnod Allweddol 2. Byddai'r awdurdod Derbyniadau'n gyfrifol am benderfynu hyn.

Os yw plentyn wedi gwneud cynnydd digonol i ddychwelyd i addysg prif ffrwd, bydd angen cyflwyno cais am le yn ysgol eu dalgylch. Bydd hawl gan y rhiant/gofalwyr fynegi eu hysgol ddewisol. Mewn achos o'r fath, caiff cais am le ei drin yr un modd yn union ag unrhyw gais arall am addysg prif ffrwd ac felly byddai'n destun y broses dderbyn gyhoeddedig.

Yn sgil diwygiad anghenion addysgol arbennig Llywodraeth Cymru, o Fedi 2022, byddwn yn mynd ati i drosi Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig i fod yn Gynlluniau Datblygu Unigol (IDPs). Bydd hyn yn rhaglen dreigl 2 i 3 blynedd.

Disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol ond heb Gynllun Datblygu Unigol neu Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

Caiff trefniadau derbyn ar gyfer plant gydag anghenion dysgu ychwanegol ond sydd heb Gynllun Datblygu Unigol neu ddatganiad eu trin ar yr un sail ag ymgeiswyr eraill. Caiff derbyniadau sy'n gysylltiedig â phlant o'r fath eu hystyried ar sail meini prawf derbyniadau'r awdurdod lleol.

Disgyblion gyda Chynllun Datblygu Unigol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Anghenion Addysg Arbennig

Os oes gan blentyn Gynllun Datblygu Ychwanegol neu ddatganiad Anghenion Addysg Arbennig wedi'i

gynnal gan yr awdurdod lleol, bydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol dros gynghori ar ddarpariaeth dysgu ychwanegol gan yr ysgol. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn gyfrifol dros ystyried addasrwydd yr ysgol naill ai pan fyddan nhw'n llunio'r Cynllun Datblygu Unigol terfynol neu ddatganiad neu yn dilyn adolygiad blynyddol.

Bydd gan bob ysgol yr adnoddau priodol i fodloni anghenion dysgu ychwanegol gyda'u cyllidebau eu hunain. Mae gan rai ysgolion adnoddau ychwanegol gydag unedau cyfannol sy'n bodloni anghenion dysgu ychwanegol.

Os yw rhiant / gofalwr plentyn gyda Chynllun Datblygu Unigol neu ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig yn dymuno apelio'n erbyn yr ysgol sydd wedi'i henwi yn y Cynlluniau Datblygu Unigol neu ddatganiad, neu pan na chaiff ysgol ei henwi, gallan nhw gyflwyno apêl i'r Dribiwnlys Addysg i Gymru a eu tudalen gwe: https://specialeducationalneedstribunal.gov.wales. Mae gwybodaeth ar Unedau Adnoddau Dysgu a'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ar y wefan www.merthyr.gov.uk neu cysylltwch gyda'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, Rhif Ffôn (01685) 725000.

TREFNIADAU GYDAG AWDURDODAU LLEOL CYFAGOS

Gallai'r rhieni gyflwyno cais i'w plentyn fynychu unrhyw ysgol, mewn unrhyw awdurdod lleol prif ffrwd, yn amodol ar feini prawf yr ysgol honno / awdurdod lleol hwnnw ac os oes digon o le yn yr ysgol. Dylid cyflwyno unrhyw ymholiadau i awdurdod derbyniadau'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf.

CEISIO AM LE MEWN YSGOL

Mae'n rhaid ceisio am le mewn ysgol yn swyddogol drwy'r porth Ar-lein i'r awdurdod lleol neu'n uniongyrchol i gorff llywodraethu ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol. Mae'r meini prawf ar dudalennau 12 yn Adran "Beth sy'n Digwydd Pan Fo Gormod o Blant yn Ceisio am Le?" yn pennu trefn blaenoriaeth yr ymgeiswyr o ran derbyniadau. Mae'r awdurdod lleol yn cynnig llefydd derbyniadau yn ystod y tymor cyn y byddai'r plentyn yn cychwyn yn yr ysgol. Am fanylion dyddiad cau ceisiadau gweler tudalen 3.

Bydd yr awdurdod yn hysbysu'r rhieni / gofalwyr ynghylch oes modd i blentyn fynychu eu hysgol ddewisol ai pheidio. Mae croeso i rieni/gofalwyr drafod eu cais gyda'r Pennaeth a fydd, os yn briodol, yn trefnu i'r rhieni/gofalwyr ymweld â'r ysgol. Mae'n rhaid ichi geisio ar-lein ar gyfer ysgolion Uwchradd a dosbarthiadau Derbyn yma www.merthyr.gov.uk/apply-for-a-school-place.

Mae pob ysgol yn llunio prosbectws gyda gwybodaeth berthnasol ynghyd â manylion am eu hamcanion a chredoau addysg, trefniant, cyfleoedd maes llafur ac unrhyw weithgareddau y tu hwnt i oriau ysgol arferol. Gallwch dderbyn copi o brosbectws yr ysgol gan y pennaeth neu ar wefan yr ysgol.

AMSEROEDD Y BROSES DERBYNIADAU

Am fanylion dyddiad cau ceisiadau gweler tudalen 3.

Ceisiadau hwyr

Byddwn yn derbyn ceisiadau hwyr Fodd bynnag, caiff ceisiadau sy'n gysylltiedig â 'plant sy'n derbyn gofal' neu blant gyda datganiadau Anghenion Addysg Arbennig, sy'n enwi ysgol benodol, eu derbyn pan gaiff ceisiadau o'r fath eu cyflwyno.

BETH SY'N DIGWYDD PAN FO GORMOD O BLANT YN CEISIO AM LE?

Os yw nifer y ceisiadau am le mewn ysgol yn is nac uchafswm derbyniadau'r ysgol, caiff pob cais am le i'r ysgol eu cymeradwyo. Nid oes modd cadw llefydd ar gyfer plant 'sydd yn y dalgylch' oni bai eu bod yn blant oed dosbarth derbyn y mae eu rhieni wedi cyflwyno cais iddyn nhw ohirio'u lle ar gyfer hwyrach ymlaen yn ystod yr un flwyddyn ysgol. Os oes mwy o geisiadau na llefydd, bydd yr awdurdod lleol yn gweithredu'r meini prawf canlynol pan fydd nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer derbyn er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch neilltuo'r llefydd sydd ar gael:

Categori Blaenoriaeth 1: 'Plant Mewn Gofal' (plant mewn gofal cyhoeddus) a phlant sydd wedi bod 'Mewn Gofal'.

Categori Blaenoriaeth 2: Plant lle mae eu cartref yn nalgylch yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer hŷn o'r un cyfeiriad sy'n mynychu'r ysgol pan maen nhw'n ceisio am le ac a fyddai'n parhau i fynychu'r ysgol honno ym mis Medi 2025.

Categori Blaenoriaeth 3: Plant lle mae eu cartref yn nalgylch yr ysgol ac sydd heb frawd neu chwaer hŷn sy'n mynychu'r ysgol.

Categori Blaenoriaeth 4: Plant lle mae eu cartref y tu hwnt i ddalgylch yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer hŷn o'r un cyfeiriad sy'n mynychu'r ysgol pan maen nhw'n ceisio am le ac a fyddai'n parhau i fynychu'r ysgol honno ym mis Medi 2025.

Categori Blaenoriaeth 5: Plant lle mae eu cartref y tu hwnt i ddalgylch yr ysgol ac sydd heb frawd neu chwaer hŷn sy'n mynychu'r ysgol.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r cyfeiriad tuag at 'cartref' yn y categorïau pan fydd nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer derbyn uchod a'r 'camau penderfynu / torri dadl' isod yn cyfeirio at union leoliad y cartref mae'r plentyn yn byw ynddo.

SYLWCH:

- Caiff plant eu dosbarthu fel brawd neu chwaer os ydyn nhw'n bodloni'r canlynol:-
  - a) Maen nhw'n frawd neu chwaer gyflawn neu'n hanner brawd neu chwaer
  - b) Maen nhw'n frawd neu chwaer sydd wedi'u mabwysiadu neu eu maethu
  - c) Maen nhw'n blant sy'n byw yn yr un tŷ yn llawn amser / parhaol h.y. llysfrawd / llyschwaer

SYLWCH NI CHAIFF CYFNITHEROD, NITHOEDD NA NEIOD EU HYSTYRIED YN FRODYR NEU CHWIORYDD

Ni chaiff trefniadau gofal plant / gwarchod plant neu weithle rhiant ei ddwyn i ystyriaeth wrth weithredu'r meini prawf o ran derbyniadau.

Am fwy o wybodaeth e-bostiwch ni ar school.admissions@merthyr.gov.uk, neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid (01685) 725000 a gofyn am y Tim Derbyniadau Ysgolion.

DALGYLCHOEDD

Mae dalgylch ysgol yn ardal o gyfeiriadau sydd wedi'u diffinio'n ddaearyddol gaiff ei ddefnyddio i sicrhau fod pob ysgol yn derbyn nifer priodol o ddisgyblion o'u cymuned. Caiff dalgylchoedd eu defnyddio er y dibenion canlynol;

- hysbysu'r rhieni o'u hysgol leol.
- cynorthwyo ysgolion i adnabod y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.
- blaenoriaethu derbyn plant lleol mewn ysgolion lle mae nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer o lefydd sydd ar gael.
- fel adnodd cynllunio fel bod modd i'r cyngor ragweld y galw am addysg mewn ardal a bwrw iddi i fodloni'r galw hwnnw.
- cynorthwyo gyda threfnu trafnidiaeth ysgol.

Mae'r awdurdod yn rheoli faint o ddisgyblion gaiff eu derbyn yn yr ysgol gyda'r meini prawf pan fo nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer derbyn sy'n ystyried plant y dalgylch yn flaenoriaeth uchel pan fo mwy o ymgeiswyr na llefydd. Mae angen cynnal adolygiad o'r dalgylch o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn adlewyrchu anghenion yr ysgolion maen nhw'n eu gwasanaethu gan gydnabod bod dewis rhieni yn bwysig hefyd. Bydd hyn yn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod cyfle i blant sy'n byw yn yr ardal dderbyn lle yn eu hysgol leol. Nodau eraill y newidiadau yw meithrin perthynas daearyddol agosach gydag ysgolion i dderbyn nifer priodol o ddisgyblion o'r gymuned.

Osy w rhieni/gofalwyr yn ansicr pa Ysgol sydd fel arfer yn gwasanaethu y neu hardal, dylent ymweld a thudalen dalgylchoedd ar y wefan Check school catchment areas | Merthyr Tydfil County Borough Council neu gysylltu'r Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid (01685) 725000 a gofyn am y tim Derbyniadau Ysgolion am gyngor.

GWIRIO GWYBODAETH

Cyfeiriad cartref

Dylid anfon tystiolaeth o'ch cyfeiriad, er enghraifft Datganiad Treth Cyngor, bil cyfleustodau diweddar neu ddogfen cyfnewid contractau ynghlwm â'r ffurflen gais. Mae'n rhaid sicrhau mai hwn yw cyfeiriad cartref parhaol y plentyn. Caiff unrhyw le sydd wedi'i gymeradwyo ar sail cyfeiriad cartref eu diddymu os nad yw'r plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw'n barhaol ar gychwyn tymor yr ysgol y mae'r cais hwnnw'n berthnasol iddo.

Cyfrifoldeb Rhiant

Dim ond y rheiny sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn sydd wedi'i enwi ar gais derbyniad gaiff gyflwyno cais a bydd gofyn iddyn nhw gyflwyno datganiad fel rhan o'r broses ymgeisio. Yn nodweddiadol, mae disgwyl bod y rheiny sy'n ceisio am le yn byw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn a chaiff ei gyfeirio ato/ati fel y 'rhiant' er dibenion derbyniadau. Pan gaiff cyfrifoldeb rhiant ei rannu'n gyfartal, bydd y Cyngor yn gofyn i rieni'r plentyn i benderfynu pa riant ddylai gyflwyno'r cais. Os na allai'r rhieni gytuno ac os nad ydy un o'r ddau wedi derbyn adroddiad llys yn datgan pwy ddylai lunio'r cais, yna byddai'r ALl yn derbyn cais gan y rhiant sy'n derbyn Budd-daliadau Plant ar gyfer y plentyn sydd wedi'i enwi ar y cais. Bydd angen tystiolaeth o hyn. Dylai'r rhieni datrys unrhyw anghydfod yn breifat a pheidio â disgwyl i'r ALl ymyrryd mewn dadleuon rhwng rhieni.

Angen Meddygol

Plant sydd wedi'u hargymell am lefydd er rhesymau meddygol, seicolegol neu resymau addysgiadol arbennig (mae'n rhaid i gynghorwyr proffesiynol yr awdurdod lleol gadarnhau'r rhain i gyd).

Genedigaethau Lluosog
Pan fydd angen gweithredu'r meini prawf pan fydd nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer derbyn a lle mae'r plentyn olaf i'w dderbyn yn un o enedigaethau lluosog e.e. gefeilliaid neu dripledi, yna bydd yr Awdurdod yn ystyried derbyn y chwiorydd / brodyr eraill, ond bydd yn rhoi sylw dyledus i ddeddfwriaeth o ran maint dosbarthiadau babanod.

Personél y Lluoedd Arfog y DU
Caiff plant Personél y Lluoedd Arfog y DU eu trin fel plant yn y dalgylch os ydyn nhw'n anfon llythyr gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) swyddogol neu lythyr gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad ynghlwm â'u cais am ffurflen dderbyn, sy'n datgan dychweliad pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

BETH SY'N DIGWYDD OS GWRTHODIR LLE I BLENTYN?

Mae'n rhaid i holl ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion gyda chymeriad crefyddol dynodedig), ac sydd â digon o le ynddyn nhw, gynnig lle i bob plentyn sydd wedi ceisio am le. Yn y mwyafrif o achosion, caiff plentyn gynnig lle yn ysgol ddewisol eu rhieni / gofalwyr. Os nad yw plentyn yn derbyn lle yn eu hysgol ddewisol, bydd gofyn i'r rhieni / gofalwyr benderfynu ydyn nhw'n fodlon derbyn lle mewn ysgol arall neu ydyn nhw'n dymuno parhau gyda'u cais gwreiddiol. Os yw'r rhieni / gofalwyr yn dymuno parhau gyda'u cais gwreiddiol, mae hawl ganddyn nhw apelio gerbron Panel Apeliadau Annibynnol. Bydd y Panel Apeliadau Annibynnol yn beirniadu oes achos digonol i'w plentyn dderbyn cynnig lle. Cyn i'r rhieni / gofalwyr fynd ati i apelio, fe gân nhw eu cynghori i ddwyn i ystyriaeth meini prawf derbyniadau'r ysgol / Awdurdod Lleol. Dylid nodi mai dim ond disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â'r hawl i apelio.

NODER: Does dim hawl apelio am leoedd mewn dosbarthiadau meithrin.

Ers cyflwyno'r rheoliadau ynghylch meintiau dosbarthiadau i fabanod, mae hawl gan yr awdurdodau derbyniadau wrthod lle i blentyn pe byddai'n rhaid i'r ysgolion weithredu mesurau fel cyflogi athro ychwanegol neu adeiladu ystafell ddosbarth ychwanegol er mwyn cydymffurfio gyda'r cyfyngiadau newydd.

Ni fydd derbyn cynnig am le yn yr ail neu drydedd ysgol ddewisol yn atal rhieni / gofalwyr rhag cyflwyno apêl yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle i'r plentyn / plant yn yr ysgol gyntaf ddewisol.

Apelio yn erbyn Penderfyniad
Os caiff cais eich plentyn / plant ei wrthod ar gyfer eich ysgol ddewisol, fe gewch chi'ch hysbysu dros e-bost neu drwy'r post (perthnasol i'r Dosbarth Derbyn a Throsglwyddo i Ysgol Uwchradd – Blwyddyn 7). Byddwn ond yn gwrthod lle os ydy nifer y llefydd uwchlaw'r nifer derbyn. Gallai rhieni / gofalwyr benderfynu apelio gerbron panel annibynnol os ydyn nhw o'r farn bod cyfiawnhad dros ystyriaeth bellach. Gallai rhieni

/ gofalwyr gyflwyno apêl ffurfiol yn erbyn yr ALl, ond mae'n rhaid ei gyflwyno ymhen 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) wedi iddyn nhw dderbyn hysbysiad o'r penderfyniad i beidio â derbyn plentyn i'w ysgol ddewisol. Dylai'r rhieni gyflwyno eu hapêl yn ysgrifenedig, gan nodi eu rhesymau dros apelio, at: Prif Swyddog Addysg, Adran Addysg, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN. Yna bydd yr ALl yn cyfeirio'r apêl at y Panel Apeliadau Annibynnol.

Caiff Rhieni / Gofalwyr eu cynghori:-

- mae croeso iddyn nhw fod yn bresennol yn y gwrandawiad, a chyflwyno eu sylwadau i'r panel yn ysgrifenedig neu ar lafar, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.
- mae hawl ganddyn nhw benderfynu peidio â mynd i'r cyfarfod apêl ac, yn lle hynny, caniatáu i'r apêl gael ei hystyried ar sail datganiad ysgrifenedig
- mae hawl gan ffrind, cynghorwr neu gyfieithydd fod yn bresennol gyda nhw. Fodd bynnag nid oes hawl gan Gynghorwyr yr ALl fod yn bresennol. Mae gofyn i rieni/gofalwyr hysbysu Clerc y Panel Apeliadau Annibynnol am unrhyw sylwadau o leiaf saith diwrnod cyn y gwrandawiad.

Mewn apêl yn erbyn derbyn, dim ond os bernir nad yw'r awdurdod derbyn wedi gweithredu'r polisi derbyn yn briodol y bydd y Panel Apêl yn gallu cadarnhau apêl.

DERBYNIADAU CANOL TYMOR

Mewn rhai achosion, bydd rhiant/gofalwr yn ystyried trosglwyddo i ysgol arall, y tu hwnt i'r rownd derbyniadau arferol, yn briodol. Mae'n rhaid ystyried penderfyniad o'r fath yn ofalus. Dylai'r rhieni / gofalwyr bwyso a mesur y penderfyniad yn ofalus cyn cyflwyno cais o'r fath. Mae'n bosibl na fuasai symud ysgol yn datrys y broblem a gallai waethygu'r sefyllfa. Dengys tystiolaeth gallai safonau cyrhaeddiad plant sy'n symud ysgol, yn enwedig ym Mlwyddyn 10 ac 11 fod yn is na'r rheiny sy'n aros yn yr un ysgol drwy gydol eu haddysg uwchradd. Er mwyn eich helpu i ddod i benderfyniad ynghylch cyflwyno cais ai pheidio, gallai dwyn i ystyriaeth ffactorau hollbwysig fod o fudd:

1. **Ysgol gyfredol** – Ydych chi wedi trafod y problemau mae'r plentyn yn eu hwynebu yn eu hysgol gyfredol gyda'r Pennaeth? Mewn nifer o achosion, gallai ysgolion roi mesurau mewn grym i ymdrin ag unrhyw broblemau y mae plentyn yn eu hwynebu e.e. bwlio neu gael trafferthion gyda'r gwaith. Beth bynnag yw'r broblem, mae'n bosibl na fuasai symud ysgol yn unig yn ei ddatrys.

2. **Cwricwlwm/Arholiadau** – Mae Cwricwlwm Cenedlaethol lle mae disgwyl i bob plentyn ei ddilyn, fodd bynnag mae'n bosibl y byddai ysgolion yn dysgu rhannau o'r cwricwlwm mewn gwahanol drefn ac ar wahanol adegau yn y flwyddyn. Os yw eich plentyn yn symud ysgol, gallan nhw golli gwaith pwysig a gallai eu canlyniadau arholiadau ddioddef yn sgil hyn. Mae hyn yn berthnasol yn arbennig ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Fodd bynnag, ni ddylid gwrthod ceisiadau os yw plentyn wedi ymdrin â chwricwlwm gwahanol yn eu hysgol flaenorol.

3. **Trafnidiaeth** – Os yw plentyn yn symud i ysgol sydd y tu hwnt i'w hardal dalgylch, **ni fydd** yr awdurdod lleol yn darparu trafnidiaeth am ddim i'r ysgol honno. Gallai teithiau i ysgol newydd olygu bysiau ychwanegol, costau ychwanegol ac amser teithio hirach.

Os yw rhieni / gofalwyr yn dal yn ansicr ynghylch symud eu plentyn – ewch ati i drafod y mater yn drylwyr!

Ar ôl ystyried yr holl faterion hyn, a bod rhieni/gofalwyr yn dal eisiau i'w plentyn drosglwyddo i ysgol, bydd angen iddynt wneud cais i'r Tîm Derbyn i Ysgolion. Gall rhieni/gofalwyr gwblhau cais ar-lein yn Mid Term Admissions or Transfers | Merthyr Tydfil County Borough Council neu trwy e-bostio school.admissions@merthyr.gov.uk

Wedi inni dderbyn cais am dderbyniad / trosglwyddiad byddwn yn mynd ati i fwrw golwg ar y cais cyn gynted â phosibl ac yn rhannu penderfyniad ffurfiol gyda'r ymgeisydd i gynnig neu wrthod eu lle ymhen 15 diwrnod ysgol.

Os yw'r rheini / gofalwyr yn ceisio am dderbyniad / trosglwyddiad i ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol, dylid gofyn am ffurflen gais priodol gan gorff llywodraethu'r ysgol dan sylw.

DERBYNIAD I YSGOL A GYNORTHWYIR YN WIRFODDOL

Polisi Derbyniadau ysgol 3-16 y Bendigaid Carlo Acutis

Mae'r polisi hwn yn cyfeirio at dderbyniadau ym mis Medi 2025. Mae'r ysgol Gatholig y Bendigaid Carlo Acutis 3-16 yn ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol yn Archesgobaeth Caerdydd. Mae'r Corff Llywodraethu yn llwyr gyfrifol am dderbyniadau i'r ysgol a byddai'n gweithredu yn unol â holl ddarpariaethau perthnasol Codau Llywodraeth Cymru ar Dderbyniadau Ysgol ac Apeliadau Derbyniadau Ysgol 2013 yn ogystal â'r gyfraith o ran derbyniadau ysgol fel sy'n briodol i ysgolion a gynhelir.

Mae'r ysgol Gatholig y Bendigaid Carlo Acutis 3-16 yn meddu ar ethos Catholig. Caiff yr ysgol ei llywodraethu fel rhan o'r Eglwys Gatholig yn unol â'i Gweithred Ymddiriedolaeth ac Offeryn y Llywodraeth ac mae'n ceisio bod yn dyst i Iesu Grist bob amser. Gofynnwn i bob rhiant sy'n ceisio am le yma i barchu'r ethos hwn a'i bwysigrwydd i gymuned yr ysgol. Dydy hyn ddim yn effeithio ar hawl rhieni sy'n credu mewn ffydd wahanol neu sydd heb gefndir ffydd ynghylch ceisio am a chael eu hystyried ar gyfer lle gan fod yr Ysgol yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan holl deuluoedd.

Mae'r nifer derbyniad ar gyfer yr ysgol yn **193**, sydd wedi'i wahanu rhwng y pedwar safle ar wahân fel a ganlyn:

Blwyddyn 7 (Safle Bishop Hedley)	120
Derbyn (Safle Sant Aloysius)	18
Derbyn (Safle Sant Illtyd)	18
Derbyn (Safle'r Santes Fair)	28

Pan fo mwy na 120 o geisiadau ar gyfer blwyddyn 7, a 73 ar gyfer dosbarth Derbyn, caiff llefydd eu neilltuo yn unol â'r meini prawf pan fydd nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer derbyn sydd wedi'i grybwyll isod.

Meini Prawf pan fydd nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer derbyn

1 Plant sydd mewn gofal Awdurdod Lleol neu a oedd yng ngofal Awdurdod Lleol yn flaenorol.

2 Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n byw yn nalgylch yr ysgol sef plwyfi Merthyr Tudful, Plwyf Mary Immaculate (dalgylch ysgol gynradd y Santes Margaret), Abertyleri a Brynmawr, Tredegar, Glynebwy a Rhymni, neu'r rheiny sy'n mynychu'r ysgolion Cynradd canlynol:

Y Santes Margaret, Aberdâr
Y Santes Fair, Brynmawr
Yr Holl Seintiau, Glynebwy
Sant Joseff, Tredegar

3 Brodyr neu chwiorydd plant sy'n mynychu'r ysgol ar yr adeg y byddai'r ymgeisydd yn ymuno gyda'r ysgol.
4 Plant Catholig eraill sydd wedi'u bedyddio.
5 Plant eraill lle mae eu rhieni yn ceisio manteisio ar addysg Gristnogol.
6 Plant eraill.

Bydd angen cadarnhad o fedydd (naill ai tystysgrif neu lythyr gan offeiriad) ar gyfer ceisiadau sy'n berthnasol i adran 2 a 4.

Agosatrwydd
Os nad oes modd i'r llywodraethwyr dderbyn yr holl ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf isaf, byddwn yn gweithredu camau penderfynu / torri dadl. Yn achos yr holl safleoedd Cynradd, caiff plant sy'n byw agosaf i'r safle eu blaenoriaethu. Mae hyn wedi'i bennu gan y pellter cerdded byrraf o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i brif fynedfa'r safle. Caiff pellteroedd eu cyfrifo gan system "mapio ysgolion" yr awdurdod lleol.

Yn achos y safle Uwchradd, caiff plant sy'n byw agosaf i'r safle eu blaenoriaethu. Mae hyn wedi'i bennu gan y pellter cerdded byrraf o ddrws tŷ'r ymgeisydd i fynediad y Dderbynfa yng Nghyfnod 2. Caiff y System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ei defnyddio i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd, tra caiff y pellter cerdded byrraf ei gyfrifo'n defnyddio data llwybr wedi'i addasu Yr Arolwg Ordnans (OS) o dŷ ymgeisydd i'r giât ysgol agored agosaf.

Brodyr a Chwiorydd
Er dibenion derbyniadau, mae brawd neu chwaer yn golygu plentyn sy'n frawd / chwaer, hanner brawd / hanner chwaer (plant sy'n rhannu un rhiant cyffredin) neu lysfrawd / llyschwaer lle mae dau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn berthnasol i blant sydd wedi'u mabwysiadu neu eu maethu sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Bydd y flaenoriaeth yn cyfeirio at y brawd neu chwaer ieuengaf yn yr ysgol ar adeg eu derbyn, gyda'r flaenoriaeth fwyaf i'r brawd neu chwaer ieuengaf.

Pan fyddwn yn neilltuo llefydd, os caiff y lle olaf ei gynnig i blentyn genedigaethau lluosog (e.e. gefaill neu dripled), bydd y llywodraethwyr hefyd yn caniatáu lle i'r brawd / chwaer neu frodyr / chwiorydd eraill.

Cartref
Mae'n rhaid dangos tystiolaeth o gartref parhaol y plentyn pan fyddwch yn cyflwyno cais. Caiff cartref parhaol ei ystyried yn brif gartref y plentyn yn ogystal â'r rhiant / gofalwr. Os yw'r plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (er rhesymau eraill ar wahân i warchodaeth) ni chaiff cyfeiriad y ffrind neu berthynas ei ystyried.

Rhannu cyfrifoldeb rhiant
Pan fo gan rieni gyfrifoldeb ar y cyd dros blentyn, ac mae'r plentyn yn byw gyda'r ddau riant am rannau o'r wythnos, caiff y cyfeiriad cartref ei bennu fel y tŷ y mae'r plentyn yn byw am y mwyafrif o'r wythnos ysgol (h.y. 3 allan o 5 diwrnod) pan fyddwch yn cyflwyno'r cais.

Plant mewn gofal / Plant sydd wedi bod mewn gofal
Diffiniad Plentyn mewn Gofal yw plentyn lle mae'r Awdurdod Lleol yn gofalu amdanyn nhw yn unol ag Adran 22 y Ddeddf Plant 1989. Plant sydd mewn gofal yr Awdurdod Lleol (plant mewn gofal) neu sy'n derbyn llety ganddyn nhw e.e. rhieni maeth (Adran 106 y Ddeddf Addysg 2005).

Caiff plentyn sydd wedi bod mewn gofal Awdurdod Lleol, fel caiff ei ddiffinio uchod, am o leiaf 24 awr eu hystyried fel plentyn sydd wedi bod mewn gofal.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) / Anghenion Addysgol Arbennig (SEN)
Caiff plentyn sy'n derbyn datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, ac sy'n enwi'r ysgol, eu derbyn i'r ysgol yn ogystal â phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n meddu ar Gynllun Datblygu Unigol (IDP) sy'n enwi'r ysgol.

Ceisiadau hwyr a cheisiadau y tu hwnt i'r rownd derbyniadau arferol
Caiff ceisiadau hwyr eu hystyried unwaith y byddwn ni wedi ystyried yr holl geisiadau sydd wedi'u cyflwyno erbyn y dyddiad cau. Os yw nifer y derbyniadau wedi'i fodloni erbyn y rownd gyntaf, yna fe gaiff yr holl geisiadau hwyr eu hystyried a'u hychwanegu at y rhestr aros.

Bydd y Pwyllgor Derbyniadau'n gyfrifol dros ystyried y ceisiadau sydd y tu hwnt i'r rownd derbyniadau arferol, gan gynnwys ceisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn. Caiff yr ymgeiswyr eu hysbysu o'r penderfyniad ffurfiol, naill ai i gynnig neu wrthod lle iddyn nhw, ymhen 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr - p'un bynnag yw'r cynharaf

Rhestr aros
Caiff plant sydd ddim yn derbyn lle eu hychwanegu at restr aros. Mae'r drefn o ran blaenoriaeth ar y rhestr aros yr un fath â'r rhestr meini prawf pan fydd nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer derbyn.
Ni fyddwn yn dwyn i ystyriaeth yr hyd amser ar y rhestr aros.

Os caiff cynigion am lefydd eu gwrthod yna fe gaiff y lle ei gynnig i'r plentyn cyntaf ar y rhestr aros ar yr adeg honno. Bydd trefn y rhestr aros yn amrywio gan gaiff ceisiadau hwyr eu derbyn, eu gwrthod a'u hychwanegu at y rhestr aros yn nhrefn y meini prawf pan fydd nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer derbyn. Caiff y rhestr aros ei chynnal tan Fedi'r 30ain.

Hawl apelio
Pan wrthodir lle i blentyn mewn ysgol, bydd y corff llywodraethu'n ysgrifennu at y rhiant gan gyflwyno'r manylion llawn am y rheswm y gwrthodwyd y cais. Mae hawl gan y rhieni apelio'r penderfyniad hwn. Mae'n rhaid i rieni sy'n dymuno apelio'r penderfyniad ddychwelyd y ffurflen apelio ymhen 14 diwrnod o dderbyn y llythyr penderfyniad.

Bydd y panel apeliadau annibynnol yn gwrando ar yr apêl.

Sut i geisio
Mae hawl gan unrhyw riant gyflwyno cais am le i'w plentyn yn yr ysgol. Gallwch gaffael ffurflen dderbyniadau o swyddfa'r ysgol. Bydd pwyllgor derbyniadau'r corff llywodraethu Dros Dro yn dwyn i ystyriaeth yr holl geisiadau.

Derbyniadau i'r Dosbarth Meithrin
Cyfanswm y nifer o lefydd meithrin sydd ar gael yw 66 llawn amser neu 132 rhan amser ac mae wedi'i wahanu rhwng 3 safle fel a ganlyn:

Sant Aloysius 20 llawn amser neu 40 rhan amser

Sant Illtyd 20 llawn amser neu 40 rhan amser

Y Santes Fair 26 llawn amser neu 52 rhan amser

Mae dosbarthiadau meithrin yn anenwadol ond byddwn yn cynnig blaenoriaeth o ran llefydd i'r canlynol:

- Plant sydd mewn gofal awdurdod lleol neu sydd wedi bod mewn gofal awdurdod lleol.
- Plant sydd â brawd neu chwaer sydd eisoes ar y gofrestr yn yr Ysgol.
- Plant sydd wedi mynychu Grŵp Cyn-Feithrin yr Ysgol.
- Plant sy'n byw yn y dalgylch.
- Plant eraill.

Ni fydd mynychu dosbarth meithrin yn gwarantu lle yn nosbarth Derbyn yr Ysgol. Bydd angen cyflwyno ffurflen gais ar wahân ar yr adeg briodol.

Does dim hawl apelio yn gysylltiedig â derbyniadau i'r Dosbarth Meithrin.

DERBYNIADAU CHWECHED DOSBARTH (Y Coleg, Merthyr Tudful)

Does dim derbyniadau chweched dosbarth i ysgolion uwchradd yn yr awdurdod mwyach. Bellach fe allwch fanteisio ar y ddarpariaeth hon trwy'r cyfleuster dysgu trydyddol integredig, Coleg Merthyr Tudful Gellir anfon ymholiadau derbyn at questions.college@merthyr.ac.uk.

Ceir gwybodaeth hefyd ar www.merthyr.ac.uk/mtc

Mae disgyblion o Ferthyr Tudful caiff eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynychu Ysgol Rhydywaun yn Rhondda Cynon Taf sydd â chweched dosbarth yno.

BWYD A DIOD MEWN YSGOLION

Mae pob ysgol ym Merthyr Tudful yn cydymffurfio gyda Menter Bwyta'n Iach Llywodraeth Cymru. Mae'r fenter yn cynnig y cyfeiriad strategol a'r gweithrediadau gofynnol i wella safonau maethol bwyd a diod gaiff ei ddarparu yn ysgolion ledled Cymru. I wybod mwy ynghylch Bwyta'n Iach, anfonwch e-bost at myschoollunch@merthyr.gov.uk neu ymweld a'r wefan ganlynol www.merthyr.gov.uk/resident/schools-and-learning/school-dinners-and-breakfast-clubs/

Prydau Ysgol
Bydd pob Ysgol Gynradd ac Uwchradd yn cynnig gwasanaeth arlwyo. Caiff yr holl Fwyd a Diod eu paratoi, eu coginio a'u gweini gan staff cymwys gan ddefnyddio cynnyrch a chynhwysion o safon ac sy'n cydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaethau diogelwch bwyd. Mae ein bwydlenni yn cydymffurfio gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd a Llywodraeth Cymru.

Mae Maethegwr Iechyd Cyhoeddus cymwys yn gyfrifol dros lunio'r Safonau Bwyd. Caiff y gwasanaeth ei deilwra i ddiwallu anghenion y disgyblion a'r ysgol. Gallwn fodloni gofynion dietegol penodol ar gyfer brecwast a chinio, ar yr amod caiff y canlynol ei gwblhau:

- Anfon llythyr gan ymarferydd meddygol sy'n ategu a chadarnhau'r alergedd / anoddefgarwch at yr ysgol a thîm arlwyo'r Ysgol (myschoollunch@merthyr.gov.uk)
- Ar gyfer holl ddietau dewisol crefyddol / ethnig (gan gynnwys dietau llysieuol), mae'n rhaid cyflwyno cais ysgrifenedig at adran arlwyo'r ysgol a'r ysgol.

Gallwch gyflwyno ceisiadau i Adran Arlwyo'r Ysgol gyda'r ffurflen ar-lein isod gan uwchlwytho unrhyw ddogfennau perthnasol sy'n ategu unrhyw alergedd / diet penodol.

Special Dietary Requirements Form | Merthyr Tydfil County Borough Council

Mae'n hollbwysig llenwi'r ffurflen hon os oes gan eich plentyn anghenion dietegol arbennig fel y gallwn ddarparu bwydlen briodol, a dylid llenwi hon cyn i'r plentyn ddechrau'r ysgol er mwyn osgoi oedi wrth ddarparu bwyd. Bydd bwydlen wedyn yn cael ei darparu i gegin yr ysgol a'r rhiant.

Ni fyddwn yn cynnig bwydlen wahanol i'r fwydlen prif ffrwd nes caiff yr uchod ei gyflawni a'i gwblhau.

I wybod mwy, cysylltwch gydag Adran Arlwyo Ysgolion Merthyr Tudful ar (01685) 725000 (a gofynnwch am Arlwyo Ysgolion) neu e-bostiwch: myschoollunch@merthyr.gov.uk

Rydym yn annog rhieni i drefnu pryd(au) eu plant ymlaen llaw drwy ParentPay unwaith iddyn nhw gofrestru ar gychwyn tymor yr ysgol ym mis Medi. Yna bydd eich plentyn yn dewis eu pryd pob diwrnod yn yr ysgol pan fyddan nhw'n cofrestru.

Menter Brecwast Am Ddim i Ysgolion Cynradd
Mae brecwast am ddim ar gael i holl ddisgyblion ein hysgolion cynradd. Cysylltwch gyda'r Pennaeth i wybod yr union amser.

Llaeth Ysgol
Rydym yn cynnig llaeth am ddim pob dydd i'r holl ddisgyblion Cyfnod Sylfaen

Prydau Ysgol Am Ddim Cyffredinol (UPFSM)

Bydd Prydau Ysgol Gynradd Cyffredinol (UPFSM) nawr yn cael eu cynnig i **bob disgybl o feithrinfa amser llawn hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 6. .**

Er bod hawl cyffredinol i brydau ysgol am ddim yn cael ei gyflwyno i bob disgybl mewn ysgolion cynradd, **mae Llywodraeth Cymru yn dal i fynnu bod teuluoedd cymwys yn gwneud cais am statws 'prydau ysgol am ddim'. Bydd gwneud cais am statws 'pryd ysgol am ddim'** yn rhoi'r Grant Hanfodion Ysgol i chi **y gellir ei ddefnyddio ar wisg ysgol, offer Addysg Gorfforol a TG ar gyfer eich plentyn.**

Yn ogystal â derbyn y Grant Hanfodion Ysgol ar gyfer pob plentyn cymwys, bydd ysgol eich plentyn a'r Cyngor hefyd yn derbyn arian ychwanegol, y gellir ei wario ar gefnogi disgyblion sy'n dysgu yn yr ysgol.

Os ydych yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau cymhwyso a restrir yn yr adran 'Cinio Ysgol Am Ddim' isod, gwnewch gais am statws Cinio Ysgol Am Ddim / Grant Hanfodion Ysgol ar-lein yn y canlynol

https://www.merthyr.gov.uk/resident/benefits-and-grants/apply-for-free-school-mealsschools-essential-grant-clothing-grant/

Os oes gennych unrhyw blant hŷn yn yr ysgol gynradd sydd eisoes yn cael pryd ysgol am ddim, byddant yn parhau i wneud hynny ac nid oes angen unrhyw gamau pellach ar gyfer y plant hyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynghylch Prydau Ysgol Rhad ac Am Ddim Cyffredinol, anfonwch e-bost at UPFSM@merthyr.gov.uk neu ffoniwch 01685 725000 a gofynnwch am yr Adran Arlwyo Ysgolion.

PRYDAU YSGOL AM DDIM A GWISG / CYFARPAR YSGOL

1. Cinio Ysgol Am Ddim

Ar wahân i gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim Cynradd Cyffredinol, dylai pob rhiant/gofalwr sy'n hawlio'r budd-daliadau cymhwyso a restrir isod wneud cais i'r Cyngor am grant Cinio Ysgol Am Ddim / Hanfodion Ysgol ar gyfer eu plentyn.

Os yn gymwys, bydd ysgol eich plentyn yn cael gwybod yn awtomatig y gellir rhoi pryd o fwyd iddo. Os ydych yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau a amlinellir isod ac nad ydych wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim i'ch plentyn o'r blaen, gwnewch gais am yr hawl i Brydau Ysgol Am Ddim / Grant Hanfodion Ysgol.

Ymysg y budd-daliadau cymwys mae:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith Ar Sail Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Ar Sail Incwm
- Cymorth ynghlwm â Rhan VI y Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- yr elfen warantedig o Gredyd Pensiwn
- Credydau Treth Plant (ar yr amod nad ydyn nhw hefyd yn gymwys ar gyfer Credydau Treth Gwaith ac ag incwm gros blynyddol o ddim mwy na £16,190)
- Parhad o Gredydau Treth Gwaith – caiff ei dalu am 4 wythnos wedi ichi beidio bod yn gymwys am Gredydau Treth Gwaith mwyach
- Credyd Cynhwysol – os ydych chi'n ymgeisio ar neu ar ôl Ebrill y 1af 2018, mae'n rhaid i enillion eich cartref fod yn is na £7,400 y flwyddyn (ar ôl treth a heb gynnwys unrhyw fudd-daliadau rydych chi'n eu derbyn)

Yn ogystal â bod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, bydd y cais yn golygu bod modd i'ch plentyn fanteisio ar gefnogaeth ariannol tuag at gost gwisg ysgol, dillad Addysg Gorfforol a chyfarpar TGCh. (Gwelwch yr adran 'Grantiau i Ddisgyblion' isod)

Mae'n bosib bod nifer o blant ledled Merthyr Tudful yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a gwisg ysgol ond ddim yn eu derbyn gan nad ydyn nhw wedi cyflwyno cais i'r Cyngor.

Gallwch gyflwyno cais drwy ofyn i'r ysgol am ffurflen Prydau Ysgol Am Ddim / Grant Hanfodion Ysgol, drwy ymweld â'r adran Budd-daliadau yn y Ganolfan Ddinesig neu drwy ymgeisio ar-lein yma https://www.merthyr.gov.uk/resident/benefits-and-grants/apply-for-free-school-mealsschools-essential-grant-clothing-grant/

2. Grantiau i Ddisgyblion

(i) Grantiau Gwisg Ysgol / Grant Hanfodion Ysgol

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig Grant Hanfodion Ysgol i gynorthwyo teuluoedd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol a chyfarpar eraill i'w plant. Mae'r grant ar gael i ddisgyblion cymwys (mae cymhwysedd yn ddibynnol ar amodau a thelerau Llywodraeth Cymru a allai amrywio o un flwyddyn i'r llall) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ysgolion arbennig, unedau adnoddau anghenion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion sydd eisoes yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Nid yw disgyblion gyda hawl 'a ddiogelir' i brydau ysgol am ddim yn gymwys ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad. Mae holl Blant sy'n Derbyn Gofal o oedran ysgol gorfodol yn gymwys i dderbyn y grant.

PLANT PERSONÉL LLUOEDD ARFOG Y DU

Ni ddylai'r awdurdodau derbyniadau wrthod lle i blentyn personél lluoedd arfog sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd oherwydd nid yw'r teulu'n byw yn yr ardal eto. Dylid trin symudiad 'yn ystod y flwyddyn' yr un fath â symudiadau cyn y flwyddyn ysgol. Tra bod y rhiant/rhieni yn dal yn rhan o'r lluoedd arfog, dylid gweithredu amodau'r Cod sy'n berthnasol i blant personél y Lluoedd Arfog ym Mhrydain. Dyma'r amodau;

'Plant Personél y Lluoedd Arfog ym Mhrydain a Gweision y Goron eraill (gan gynnwys diplomyddion)
Mae gofyn i Deuluoedd personél y Lluoedd Arfog ym Mhrydain a Gweision y Goron eraill symud ledled Prydain a thramor yn aml, a hynny yn ar fyr rybudd gan amlaf. Mae'n rhaid neilltuo llefydd ysgol i'r plant a'u teuluoedd cyn y flwyddyn ysgol sy'n agosáu os oes llythyr swyddogol gan Y weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) sy'n datgan dyddiad dychwelyd. Gellir cynnig statws eithriedig i blant Personél y Lluoedd Arfog ym Mhrydain er dibenion maint dosbarthiadau babanod pan cân nhw gynnig lle mewn ysgol y tu hwnt i'r rownd derbyniadau arferol.

B. POLISI TRAFNIDIAETH YSGOLION

Mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod i gynnig trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion i'r ysgol agosaf sydd ar gael os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i 'bellter cerdded' i'r ysgol honno. Caiff y gyfraith yn ymwneud â 'pellter cerdded' ei ddiffinio fel dwy filltir ar gyfer plant oedran cynradd a thair milltir i blant oedran uwchradd. Caiff hyn ei fesur yn ôl y llwybr gerdded diogel agosaf sydd ar gael. Mae Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cynnig trafnidiaeth fel a ganlyn ar hyn o bryd:

- i ddisgyblion oedran cynradd sy'n byw dros 2 filltir o'u hysgol gynradd agosaf neu eu hysgol gynradd ddynodedig yn eu dalgylch a;
- i ddisgyblion oedran uwchradd sy'n byw dros 3 milltir o'u hysgol uwchradd agosaf neu eu hysgol uwchradd ddynodedig yn eu dalgylch.

Gallwch weld yr wybodaeth ddiweddaraf ar wefan yr awdurdod, neu drwy gysylltu gyda'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid (01685) 725000.

Mae'r meini prawf o ran pellter yn berthnasol i bob ysgol, gan gynnwys ysgolion Ffydd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, pe bai disgyblion yn mynychu ysgol oherwydd dewis rhieni, yn hytrach na'u hysgol agosaf neu eu hysgol ddynodedig yn eu dalgylch, mae'n rhaid i'r rhieni ddeall eu bod yn derbyn cyfrifoldeb llawn dros gostau a threfniadau trafnidiaeth. Os yw plentyn yn gymwys i dderbyn trafnidiaeth am ddim, byddan nhw'n derbyn lle ar gerbyd contract sy'n rhedeg yn yr ardal benodol honno.

C. RHESTR YSGOLION

Mae'r holl ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gydaddysgol
Mae'r holl ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn amhreswyl
Ac eithrio'r ddwy Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg mae pob un o'r ysgolion yn cynnig addysg drwy gyfrwng y Saesneg

Mae'r Awdurdod Lleol yn adolygu'r Cynlluniau Llefydd Ysgol yn barhaus a allai arwain at newid yn Nifer y Derbyniadau. O ganlyniad gellir newid Nifer Derbyniadau'r ysgol sydd wedi'i gofnodi.

YSTOD OEDRAN
YSGOLION CYNRADD **3 – 11 OED**
YSGOLION UWCHRADD **11 -16 OED**
YSGOL A GYNORTHWYIR YN WIRFODDOL **3 - 16 OED**

Ysgol	Cyfeiriad	Pennaeth, Manylion Cyswllt	Rhif Derbyn	Nifer y Ceisiadau Dosbarth Derbyn – Medi 2024
PRIMARY				
Ysgol Gymradd Abercanaid	Y Parc, Abercanaid, Merthyr Tudful, CF48 1SZ	Mrs. J. Edwards ☎ (01685) 351820	26	23
Ysgol Gynradd Gymunedol Beddllwynog	Teras Hylton, Beddllwynog, Treharris, CF46 6RE	Mr. R. Morgan ☎ (01685) 351823	14	6
Ysgol Gynradd Caedraw	Ffordd Caedraw, Merthyr Tudful, CF47 8HA	Miss. D. Williams ☎ (01685) 351801	32	21
Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa	Parc Cyfarthfa, Merthyr Tudful, CF47 8RE	Mr. O. Morgan ☎ (01685) 351807	56	37
Ysgol Gynradd Dowlais	Y Stryd Fawr, Caeharris, Dowlais, Merthyr Tudful, CF48 3HB	Mrs. J. Estebanez ☎ (01685) 351808	22	20
Ysgol Gynradd TrefEdward	Ffordd Caerdydd, TrefEdward, Treharris, CF46 5NE	Mrs. E. Edmunds ☎ (01685) 351824	46	46
Ysgol Gynradd Gellifaelog	Penydarren, Merthyr Tudful, CF47 9TJ	Mr. J. Voros ☎ (01685) 351812	34	18
Ysgol Gynradd Goetre	Rowan Way, Ystâd Gurnos, Merthyr Tudful, CF47 9PB	Mr. D. Beech ☎ (01685) 351814	62	50

Ysgol	Cyfeiriad	Pennaeth, Manylion Cyswllt	Rhif Derbyn	Nifer y Ceisiadau Dosbarth Derbyn – Medi 2024
Ysgol Gynradd Gwaunfarren	Rhodfa Alexandra, Merthyr Tudful, CF47 9AF	Mr. A. Lewis ☎ (01685) 351810	37	33
Ysgol Gynradd Heolgerrig	Ffordd Heolgerrig, Merthyr Tudful, CF48 1SB	Mrs. A. Morris ☎ (01685) 351803	29	28
Ysgol Gynradd Pantysgallog	Pant, Dowlais, Merthyr Tudful, CF48 2AD	Mr. D. Thomas ☎ (01685) 351813	51	62
Ysgol Gynradd Trelewis	Trelewis, Treharris, CF46 6AH	Mr. R. Morgan ☎ (01685) 351822	31	29
Ysgol Gynradd Gymunedol Troedyrhiw	Stryd Archer, Troedyrhiw, Merthyr Tudful, CF48 4JQ	Mrs. J. Roome ☎ (01685) 351819	28	18
Ysgol Gynradd Gymunedol Twynyrodyn	Gilfach Cynon, Twynyrodyn, Merthyr Tudful, CF47 0LW	Mr. A. Miles ☎ (01685) 351804	42	38
Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen	Ffordd Aberfan, Aberfan, Merthyr Tudful, CF48 4QQ	Mrs. S. Roden ☎ (01685) 351821	47	28
Ysgol Gynradd Ysgol-y-Graig	Cefn Coed, Merthyr Tudful, CF48 2RD	Mr. D. Anstee ☎ (01685) 351806	30	19
Ysgol Gynradd Coed-Y-Dderwen	Ystâd Gellideg, Merthyr Tudful, CF48 1LG	Mrs. S. Townsin ☎ (01685) 351805	29	21
YSGOL GYNRADD CYFRWNG CYMRAEG				
Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd-y-Grug	Aberfan, Merthyr Tudful, CF48 4NT	Ms. A. Bowen ☎ (01685) 351818	41	30
Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful	Ffordd Pantyffyn, Mountain Hare, Merthyr Tudful CF47 0HU	Mrs. L. Jones ☎ (01685) 351815	61	35
Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful – Safle'r Gurnos	Cedar Way, Gurnos Estate, Merthyr Tydfil, CF47 9PA		27	8

Ysgol	Cyfeiriad	Pennaeth, Manylion Cyswllt	Rhif Derbyn	Nifer y Ceisiadau Dosbarth Derbyn / Blwyddyn 7 - Medi 2024
YSGOLION CATHOLIG 3-16 A GYNORTHWYIR YN WIRFODDOL				
Ysgol Gatholig y Bendigaid Carlo Acutis	Ffordd Gwaunfarren, Merthyr Tudful, CF47 9AN	Mrs. S. Hopkins Executive Headteacher ☎ (01685) 351860	120	96
Ysgol Gatholig y Bendigaid Carlo Acutis – Safle Sant Aloysius	Cedar Way, Ystâd Gurnos, Merthyr Tudful, CF47 9PA	☎ (01685) 351809	18	11
Ysgol Gatholig y Bendigaid Carlo Acutis – Safle Sant Illtyd	Ffordd Rocky, Dowlais, Merthyr Tudful, CF48 3BT	☎ (01685) 351811	18	12
Ysgol Gatholig y Bendigaid Carlo Acutis – Safle y Santes Fair	Ffordd Caedraw, Merthyr Tudful, CF47 8HA	☎ (01685) 351802	28	20
UWCHRADD				
Ysgol Uwchradd Afon Taf	Stryd Yew, Troedyrhiw, Merthyr Tudful, CF48 4ED	Mr. S. James ☎ (01685) 351830	168	179
Ysgol Uwchradd Cyfarthfa	Cae Mari Dwn, Ffordd Queen's, Merthyr Tudfiu, CF47 0LS	Mr. L. Brennan ☎ (01685) 725222	178	159
Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre	Ystâd Gurnos, Merthyr Tudful, CF47 9BY	Mr. K. Maher ☎ (01685) 351845	192	195
YSGOLION ARBENNIG				
Ysgol Arbennig Greenfield	Ffordd Duffryn, Pentrebach, Merthyr Tudful, CF48 4BJ	Mrs. R. Stevens-Davies ☎ (01443) 690468	N/A	N/A
Uned Cyfeirio Disgyblion Ty Dysgu	Ffordd y Farchnad, Dowlais, Merthyr Tudful, CF48 3HW	Mr. S. Pardoe ☎ (01685) 724645	N/A	N/A

D. YSGOLION CYNRADD / UWCHRADD CYSYLLTIEDIG

Sylwch os ydych chi'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol gynradd gysylltiedig, nid yw hyn yn gwarantu neu'n rhoi hawl i'ch plentyn dderbyn lle mewn ysgol uwchradd benodol.

YSGOL UWCHRADD AFON TAF
Ysgol Gymunedol Abercanaid
Ysgol Gynradd Gymunedol Beddllwynig
Ysgol Gynraf TrefEdward
Ysgol Gynradd Gymunedol Troedyrhiw
Ysgol Gynradd Trelewis
Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen

YSGOL UWCHRADD CYFARTHFA
Ysgol Gynradd Caedraw
Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa
Ysgol Gymunedol Heolgerrig
Ysgol Gymunedol Twynyrodyn
Ysgol Gynradd Coed Y Dderwen

YSGOL UWCHRADD PEN-Y-DRE
Ysgol Gynradd Dowlais
Ysgol Gynradd Gellifaelog
Ysgol Gynradd Goetre
Ysgol Gynradd Gwaunfarren
Ysgol Gynradd Pantysgallog
Ysgol-y-Graig

YSGOL GYFUN RHYDYWAUN
Mae'r ysgolion canlynol yn gysylltiedig ag Ysgol Gyfun Rhydywaun, Rhodfa Lawrence, Penywaun, Hirwaun, CF44 9ES:

Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd-Y-Grug
Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful